

Hysbysiad Statudol

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ar ôl ymgynghori â'r unigolion hynny fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol, yn cynnig gwneud y newidiadau rhagnodedig fel a ganlyn:

➤ **Uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd ar safle presennol yr ysgol fabanod**

Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a'r ymateb llawn gan Estyn, ar gael yn: <https://www.caerffili.gov.uk/ysgolion-yr-21ain-ganrif>

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig gyda dyddiad dod i rym tua mis Medi 2024.

Nifer y disgyblion yn Ysgol Fabanod Llanfabon ar hyn o bryd yw 90 ynghyd â 33 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin; capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yw 120 o ddisgyblion.

Nifer y disgyblion yn Ysgol Iau Llancaeath ar hyn o bryd yw 147; capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yw 188 o ddisgyblion.

Y capasiti arfaethedig ar ôl i'r cynnig gael ei roi ar waith fydd 275 o ddisgyblion, ynghyd â 40 o leoedd yn y dosbarth meithrin.

Y nifer derbyn ar gyfer yr ysgol gynradd newydd fydd 40 ar gyfer pob grŵp blwyddyn gan gynnwys y dosbarth meithrin.

Y cynnig yw na fyddai'r dalgylch yn newid fel rhan o'r datblygiad hwn fel sydd wedi'i amlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalen 16)

Nid oes newid i bolisi'r Cyngor o ran cludiant ysgol, sef darparu cludiant am ddim i'r ysgol 'berthnasol' (h.y. yn y dalgylch neu'r ysgol agosaf) os yw'r pellter yn fwy nag 1.5 milltir rhwng y cartref a'r ysgol.

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

Cyfnod gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, hynny yw, rhwng **dydd Mawrth 1 Chwefror 2022 a dydd Llun 28 Chwefror 2022**, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r cynigydd.

Dylai gwrthwynebiadau trwy e-bost gael eu hanfon i: YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk
Dylai gwrthwynebiadau ysgrifenedig gael eu hanfon i: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ar gyfer sylw Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (a heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu – ynghyd â'i sylwadau ar bob un – pan fydd yn rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid am y penderfyniad ar y cynnig.

Richard Edmunds

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol



Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dyddiad: 1 Chwefror 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hyn yn rhan o'r hysbysiad, ond diben hyn yw egluro'r ystyr gyffredinol)

Bwriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw cyfuno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth ysgol gynradd newydd ar safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon.

O tua mis Medi 2024, bydd disgyblion yn Ysgol Iau Llancaeath yn trosglwyddo i safle'r ysgol gynradd newydd yn stryd Bryncelyn, Nelson CF46 6HL, yn amodol ar ddewis y rhieni.